**ATODIAD 2.**

# DISGRIFIAD O RÔL A CHYFRIFOLDEBAU AELOD O GYNGOR GWYNEDD

## 1. Atebolrwydd

- I etholwyr y ward a thrigolion y gymuned ehangach
- I'r Cyngor Llawn

## 2. Swyddogaethau penodol

2.1 Arwain y Gymuned

- Cynrychioli buddiannau'r gymuned yn y Cyngor
- Gwrando ar lais pawb yn y gymuned
- Cyfathrebu hefo'r gymuned, eu hysbysu am bolisïau a gweithgaredd y Cyngor, a rheoli eu disgwyliadau
- Dylanwadu ar y Cyngor i ymateb i ofynion y gymuned
- Ymgymryd â gwaith achos unigol a chyfeirio unigolion i'r adrannau cywir
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y Cyngor a'r gymuned
- Hwyluso gweithgaredd yn y gymuned, trwy ddod â hwy ynghyd
- Gweithredu yn unol â'r addewidion a wnaed yn yr etholiad

2.2 Llywodraethu corfforaethol

- Dylanwadu ar bolisïau'r Cyngor, ei benderfyniadau a'i weledigaeth, trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y pwyllgorau craffu a phwyllgorau eraill
- Deall polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau ohonynt.
- Mynychu cyfarfodydd y pwyllgorau perthnasol a pharatoi'n llawn ar eu cyfer ymlaen llaw
- Dod i benderfyniadau ar sail cytbwys gan roi ystyriaeth deilwng i'r holl ffactorau perthnasol
- Ceisio adeiladu consensws trwy gydweithio gydag aelodau eraill a swyddogion
- Cydbwyso anghenion y gymuned leol a rhai'r Cyngor cyfan wrth ddod i benderfyniadau

2.3 Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol
*(e.e. llywodraethwyr ysgol, awdurdod heddlu, mudiadau lleol)*

- Deall rôl y corff allanol, a rôl cynrychiolydd y Cyngor arno
- Mynychu cyfarfodydd o'r corff allanol gan gyfrannu at ei drafodaethau
- Cydweithio i adeiladu perthynas waith dda gyda'r corff allanol
- Adrodd yn ôl i'r Cyngor ar waith y corff allanol yn ôl y galw
- Paratoi at gyfarfodydd er mwyn cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol
- Cadw at reolau a chanllawiau'r Cyngor ar gynrychiolaeth ar gyrff allanol
- Derbyn a pharchu cyfansoddiad y corff allanol
- Mynychu cyfarfodydd o'r cyngor cymuned perthnasol fel sylwedydd o bryd i'w gilydd

2.4 Cynnal safonau

- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad
- Cadw at y protocol cyswllt aelod/swyddog
- Neilltuo'r amser angenrheidiol i waith y Cyngor a chwarae rhan lawn yn y gwaith *(ar gyfartaledd cymer y gwaith 3 diwrnod yr wythnos)*
- Parchu rôl a chyfraniad aelodau eraill, a swyddogion
- Ymrwymo i hunanddatblygiad a hyfforddiant
- Parchu gwerthoedd y Cyngor
- Parchu penderfyniadau democrataidd y Cyngor

## 3. <u>**Gwerthoedd**</u>

3.1 Gwerthoedd y Cyngor

- Parch
- Gwasanaethu Pobl
- Gweithio fel tîm
- Positif
- Gwerth am arian

3.2 Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a gwedduster
- Cynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd mewn penderfyniadau
- Cydraddoldeb a pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Rhoi arweiniad

## 4. <u>**Cefnogaeth**</u>

Gall aelodau ddisgwyl cefnogaeth i safon Siarter Cymru ar Gefnogi a Datblygu Cynghorwyr a gofynnir i bob aelod fanteisio ar y gefnogaeth sydd ar gael